

## **Cyfarfod Gweinidogol Grŵp y Trydydd Sector: Economi a Thrafnidiaeth**

**Nodiadau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2019 yn Ystafell Gynadledda Llywodraeth Cymru, Tŷ Hywel**

**Yn bresennol:**

### Llywodraeth Cymru

Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth  
Huw Bryer, Pennaeth Busnes Cymru a Chynnal Busnesau Bach a Chanolig  
Stephen Layne, Uwch Ddadansoddwr Polisi, Polisi Economaidd  
Carys Roberts, Swyddog Mentrau Cymdeithasol

### Cynrychiolwyr y Trydydd Sector

Matt Brown	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
Jess McQuade	Cyswllt Amgylchedd Cymru
Derek Walker	Canolfan Cydweithredol Cymru
Gethin Rhys	Cyngor Rhyng-ffydd Cymru
David Williams	Cwmnïau Cymdeithasol Cymru
Peter Williams	Cymdeithas Ymddiredolaethau Datblygu Cymru

### Ymddiheuriadau

Peter Jones	Cŵn Tywys Cymru
Lynne Hill	Plant yng Nghymru
Matt Appleby	Busnes yn y Gymuned
San Leonard	Cwmnïau Cymdeithasol Cymru

### **Eitem Agenda 1 – Cyflwyniadau, cofnodion a chatau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf**

1. Croesawodd y Dirprwy Weinidog yr aelodau a gofynnodd i bawb gyflwyno'u hunain yn fyr. Nododd y Grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol heb wneud unrhyw sylwadau a'r camau gweithredu a godwyd.

### **Eitem Agenda 2 – Strategaeth Mentrau Cymdeithasol**

2. Gwahoddodd y Dirprwy Weinidog Derek Walker i gyflwyno'r eitem ar yr agenda. Esboniodd Derek sut daeth y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mentrau Cymdeithasol at ei gilydd i ddatblygu gweledigaeth a chynllun gweithredu ar gyfer y sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru. Byddai'r dull yma yn golygu bod y sector yn datblygu cynllun ar gyfer y sector ei hun.
3. Amlinellodd Derek yr uchelgais i fentrau cymdeithasol fod 'y model o ddewis'. Heriodd y Dirprwy Weinidog a oedd hyn yn weledigaeth realistig ac a allai'r sector mentrau cymdeithasol fyth fod yn fodel o ddewis mewn gwirionedd. Fodd bynnag, croesawodd y Dirprwy Weinidog agwedd gyffredinol y sector o ddod at ei gilydd i ddatblygu ei gynllun ei hun.

4. Nododd Derek y bwriad i gyhoeddi'r data mapio diweddaraf ar gyfer y sector yn ystod y misoedd nesaf. Addawodd Derek i rannu hyn gyda'r Grŵp pan fydd ar gael.

***CAM GWEITHREDU: Derek Walker i ddosbarthu'r data mapio mentrau cymdeithasol pan fydd ar gael.***

5. Pwysleisiodd Derek y byddai'r strategaeth newydd yn adeiladu ar yr hyn sy'n ddefnyddiol yn y strategaeth bresennol.
6. Trafododd y Grŵp gyfleoedd i wneud cysylltiadau llawer gwell a mwy effeithiol gydag ysgolion. Cyfeiriodd Huw Bryer at y rhaglen modelau rôl i fentrau sy'n cael ei chynnal gan Lywodraeth Cymru a'r cyfleoedd i godi proffil mentrau cymdeithasol o fewn hynny.
7. Gofynnodd y Dirprwy Weinidog am wybodaeth bellach ynglŷn â rôl yr 'Entrepreneur Cymdeithasol Preswyl' arfaethedig yn Llywodraeth Cymru. Eglurodd Derek Walker fod y cynnig hwn wedi deillio o waith dan arweiniad Michael Sheen a'i fod yn adlewyrchu model yr Alban o entrepreneur cymdeithasol preswyl yn gweithredu fel pwynt cyswllt rhwng y Llywodraeth a'r sector mentrau cymdeithasol. Eglurodd Derek fod mwy o waith eto i'w wneud ar y cynnig ac y gellir ei ystyried a'i drafod ymhellach.
8. Trafododd y Grŵp bwysigrwydd nodi a mynd i'r afael â rhwystrau i dyfu'r sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru a chydabod ei werth i economi Cymru. Nodwyd newid meddylfryd a ffyrdd o weithio fel materion allweddol wrth gefnogi'r sector i dyfu ar raddfa eang.
9. Amlinellodd y Dirprwy Weinidog ei ddull o weithio gyda'r Economi Sylfaenol, a'i osod yng nghyd-destun:
  - a. Cronfa newydd i gefnogi prosiectau arbrofol ar draws yr Economi Sylfaenol (£1.5m ar hyn o bryd, ond gyda dyheadau i'w gynyddu hyd at £10m).
  - b. Mynd i'r afael â'r 'canol coll' a thyfu cwmnïau cynhenid, sydd wedi'u sefydlu yng Nghymru.
  - c. Gwneud y gorau o werth cymdeithasol caffael, gan gynnwys dysgu o'r arferion yn Preston y mae cryn sôn amdanynt.
10. Nododd Derek Walker fod dull amyneddgar yn hanfodol i gefnogi cwmnïau sefydledig dros y tymor hir. Tynnodd Derek sylw at y ffaith bod cronfa olyniaeth Banc Datblygu Cymru, er ei bod yn cael ei chroesawu, yn gweithredu o fewn cyfnod amser o bum mlynedd a bod hyn yn annigonol ar gyfer pryniant gweithwyr sydd angen dull tymor hwy.

***CAM GWEITHREDU: Grŵp i ddarparu syniadau pellach ar sut gellid cefnogi cwmnïau sefydledig yn y dull Economi Sylfaenol.***

11. Soniodd Jess McQuade am yr angen a'r cyfle i wreiddio twf/lles amgylcheddol i'r dull Economi Sylfaenol. Cyfeiriodd Jess at y gwaith roedd y WWF yn ei wneud i gysylltu'r agenda amgylcheddol â'r Economi Sylfaenol. Soniodd Jess y gallai hyn gael ei gwblhau erbyn yr haf. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai'n ddefnyddiol pe gellid darparu'r wybodaeth hon yn gynt. Cynigiodd Jess hefyd gynnal sesiwn i archwilio cyfleoedd ymhellach. Dywedodd y Dirprwy Weinidog y byddai swyddogion yn falch o dderbyn cynnig Jess.

***CAM GWEITHREDU: Jess McQuade i ddarparu gwaith y WWF ar yr Economi Sylfaenol a'r amgylchedd cyn gynted ag y bydd ar gael.***

***CAM GWEITHREDU: Swyddogion a Jess McQuade i drafod trefniadau ar gyfer sesiwn ar yr Economi Sylfaenol a'r amgylchedd.***

12. Amlinellodd y Dirprwy Weinidog y dyhead a'r cyfle i gydlynu gweithgarwch sy'n gysylltiedig â Swyddi Gwell yn Nes Adref a Thasglu'r Cymoedd mewn ffordd strategol, a'i gysylltu â'r dull Economi Sylfaenol ehangach. Bu'r Dirprwy Weinidog yn ystyried model ysgolion yr 21ain ganrif o arian cyfatebol a'i fod yn cwrdd ag arweinwyr Awdurdodau Lleol yn fuan i archwilio cyfleoedd tebyg yn yr Economi Sylfaenol.

13. Soniodd y Dirprwy Weinidog am lwyddiannau Cyngor Rhondda Cynon Taf yn defnyddio tai gwag drwy gael gwared ar y disgownt Treth Cyngor ar gartrefi gwag. Cyfeiriodd y Dirprwy Weinidog at ystadegau cartrefi gwag ar draws y cymoedd ac awgrymodd y byddai ailddefnyddio cartrefi gwag er mwyn eu defnyddio unwaith eto yn darparu cyfleoedd ar gyfer eco-ffitrydd ac yn cefnogi'r agenda sgiliau.

14. Tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw at ei ddyhead i adeiladu rhwydweithiau cyn-fyfyrywyr ar gyfer ysgolion a dywedodd y byddai'n cwrdd â'r Gweinidog Addysg ar y pwnc hwn yn fuan. Tynnodd y Dirprwy Weinidog sylw at fanteision mentora, modelau rôl a manteision eraill rhwydweithiau cyn-fyfyrywyr o'r fath sy'n gyffredin yn y sector preifat ond yn llai cyfarwydd yn y sector gwladol. Soniodd Huw Bryer am waith Busnes yn y Gymuned, Gyrfa Cymru a Busnes Cymru yn y maes hwn a chyfeiriodd at waith parhaus i edrych ar sut gall y gwahanol fentrau hyn gysylltu â'i gilydd er mwyn sicrhau eu bod mor effeithiol â phosibl.

15. Cyfeiriodd Jess McQuade at waith sy'n gysylltiedig â'r 'fargen werdd newydd' a chynigiodd roi mwy o wybodaeth am hynny. Holodd Jess hefyd am rôl cynhyrchu bwyd o fewn yr Economi Sylfaenol. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod y diffiniad o economi sylfaenol ar hyn o bryd yn cynnwys cynhyrchu bwyd.

16. Rhoddodd Derek Walker ddiweddariad ar y gwaith y mae Coop Cymru wedi bod yn ei wneud gyda RhCT ar ofal plant. Cyfeiriodd Huw Bryer at waith sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn a phwysigrwydd sicrhau cysondeb.

***CAM GWEITHREDU: Swyddogion i ddsbarthu manylion cyswllt arweinydd polisi LIC ar ofal plant i Derek Walker fel y gellir gwneud cysylltiadau priodol.***

17. Rhoddodd Huw Bryer ddiweddariad ar Fusnes Cymru ac effaith bosibl colli arian yr UE. Eglurodd Huw fod swyddogion yn llunio gwerthusiad llawn o'r opsiynau ar

gyfer entrepreneuriaeth a chymorth busnes BBaCh y tu hwnt i 2021 yn seiliedig ar dair senario (i) cyllideb is; (ii) cyllideb sy'n cyfateb yn fras i lefelau cyfredol; a (iii) bod cyllideb uwch ar gael. Bydd hyn yn bwydo i mewn i bapur opsiynau sydd i'w gwblhau yn y Gwanwyn.

### **Eitem Agenda 3 - Contract Economaidd (diweddariad o'r cyfarfod diwethaf)**

18. Cyflwynodd Jess McQuade y papur a thanlinellodd ddau bwynt pwysig:

- Olew Palmwydd a'i ddiffiniad a'i ddefnydd o fewn y contract economaidd.
- Ehangu cwmplas y contract economaidd i gasglu dealltwriaeth ehangach o'r amgylchedd.

19. Rhoddodd Stephen Layne ddiweddariad ar Olew Palmwydd, gan gynnwys y diffiniad a fabwysiadwyd gan y cyfarfod Bord Gron ar Olew Palmwydd Cynaliadwy. Eglurodd Stephen fod y dull presennol o ddefnyddio sgwrs y Contract Economaidd fel ffordd o drafod y mater gyda chwmnïau yn un dros dro a bod mwy o waith i'w wneud i ddeall maint y broblem yng Nghymru a sgôp Llywodraeth Cymru i ysgogi newid.

20. Dywedodd Jess McQuade ei bod yn awyddus i gwrdd â swyddogion fel rhan o'r gwaith o ddatblygu polisi ac i ddefnyddio ei rhwydweithiau i roi arbenigedd ehangach i swyddogion. Cytunodd swyddogion i fanteisio ar y cynnig hwnnw fel rhan o'r ymgysylltiad ehangach y bydd angen ei wneud wrth ddatblygu'r polisi. Cododd Jess hefyd effaith Soya ar ecosystemau fforestydd glaw a sut gallai Llywodraeth Cymru ddangos arweiniad yn y maes hwn.

### ***CAM GWEITHREDU: Swyddogion i drefnu cyfarfod gydag arbenigwyr Olew Palmwydd, drwy'r WWF ac eraill, i archwilio a deall y pwnc hwn ymhellach.***

21. Gofynnodd Jess McQuade ynglŷn â'r broses o fesur effaith a monitro'r contract economaidd. Esboniodd Stephen Layne bwysigrwydd cymryd agwedd gytbwys at drefniadau adrodd a monitro, er mwyn peidio â rhoi busnesau bach yn arbennig o dan anfantais, sydd efallai heb adnoddau staff wrth gefn i ateb ceisiadau'r Llywodraeth am ddata.

22. Dywedodd Stephen, wrth ddatblygu'r Contract Economaidd, fod cryn ymgysylltiad wedi'i wneud gydag amrywiaeth enfawr o sefydliadau ynglŷn â lefel y monitro a'r rhagnodi sy'n briodol. Eglurodd Stephen mai'r farn gref oedd y dylai Llywodraeth Cymru osgoi bod yn rhy ragnodol a mabwysiadu dull lle mae busnesau yn 'dweud eu stori' ac yn cyflwyno eu tystiolaeth ar sut maen nhw'n credu eu bod yn bodloni'r Contract Economaidd.

23. Esboniodd Stephen fod dull o'r fath yn cydnabod yr arloesedd a'r creadigrwydd mewn llawer o enghreifftiau o arfer gorau na fyddai o reidrwydd wedi cael eu cynnwys mewn dull cul a rhagnodol. Mae adrodd yn digwydd ar ffurf astudiaethau achos ac adborth ansoddol yn hytrach na dulliau meintiol rhagnodol.

24. Gofynnodd Jess McQuade sut gellir defnyddio'r dull hwn i ddeall a yw Cymru yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r heriau hollbwysig. Dywedodd Stephen Layne fod Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio gyda'r OECD a oedd yn edrych ar fesuriadau priodol ar gyfer twf cynhwysol, gan adeiladu ar arfer gorau mewn gwledydd a rhanbarthau eraill.
25. Soniodd Derek Walker am yr offer sy'n bodoli eisoes ym maes mesur effaith ac y gallai Llywodraeth Cymru edrych ar archwilio'r hyn sy'n bodoli eisoes yn hytrach na chreu rhywbeth newydd.

***CAM GWEITHREDU: Ail-rannu (DW a JM) a gweithio gyda Busnes yn y Gymuned i archwilio modelau pellach ar gyfer adrodd a dangos effaith.***

#### **Eitem Agenda 4 – Paratoi ar gyfer Brexit**

26. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog ddiweddariad byr ar y gwaith sy'n mynd ymlaen ar hyn o bryd i baratoi ar gyfer y canlyniad Brexit gwaethaf posibl, wrth geisio cael ateb sydd er lles gorau Cymru a'r DU.
27. Adlewyrchodd y Dirprwy Weinidog y ffaith nad yw llawer o fusnesau a sefydliadau yn barod am ganlyniad 'heb gytundeb'. Soniodd y Dirprwy Weinidog am y Porth Brexit a'i offeryn diagnostig a'r angen i gefnogi cyfran ehangach o fusnesau yng Nghymru i fanteisio arno. Mae'r nifer sy'n manteisio ar y sector Economi Gymdeithasol wedi bod yn gyfyngedig a byddai Llywodraeth Cymru yn falch pe bai'r Grŵp yn gallu lledaenu gwybodaeth am y porth i aelodau.

#### **Eitem Agenda 5 – Ffordd Liniaru'r M4**

28. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod yr adroddiad gyda'r Prif Weinidog a'i fod yn ei ystyried. Cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog fod Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych ar atebion tymor byr i fynd i'r afael â thagfeydd.

#### **Unrhyw Fater Arall**

29. Roedd y Grŵp o'r farn y gallai cefnogaeth i gwmnïau sefydledig a Thasglu'r Cymoedd fod yn eitemau posibl ar gyfer agenda'r cyfarfod nesaf.

***CAM GWEITHREDU: Swyddogion i gydlynu â'r WCVA ynglŷn â threfniadau ar gyfer y cyfarfod nesaf.***

Gorffen.